

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 10fed 2020 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Jones (cadeirydd), Euros Puw, Gwynedd Jones, Jean Roberts Arwel Davies, Huw Charles a'r clerc.,

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Rhys Richards, Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a Chwefror a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Nodwyd y buddiannau gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol isod.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Gwter ger Preswylfa a Gwalia, Parc – cafwyd cadarnhad fod y gwaith o drwsio'r beipen a'r rhestr gwaith y gweithlu.

b) Adroddiad Bioamrywiaeth 2019 y Cyngor

Cyflwynwyd copi o'r adroddiad bioamrywiaeth a luniwyd gan y Clerc ym mis Rhagfyr.

c) Mabwysiadu Polisiâu Diogelu Data

Cytunwyd i fabwysiadu'r polisiâu a ffurflenni dwyieithog ychwanegol a greuwyd gan y clerc;- Polisi toriadau diogelwch data, Cais mynedfa pwnc a Ffurflen hysbysu toriad data.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.

i) Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynnyddol 2020/21. Cafwyd braslun o'r argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Cytunwyd i fabwysiadu'r argymhellion a oedd yn orfodol a nodwyd fod angen i'r cynghorwyr hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

ii) Opsiynau Tai Gwynedd – llythyr yn ein cynghori o'r newidiadau i'w Polisi Gosod Tai.

iii) Triathalon Y Bala 2020 - derbyniwyd neges na fyddai'r triathalon yn cael ei leoli yn Y Bala eleni.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w drafod.

vi) Materion Ariannol

a) Adolygu cyflog y clerc.

Adolygwyd cyflog y clerc a chytunwyd i'w gadw'r un fath yn 2020/21.

b) Cynllun Pensiwn Gweithle.

Eglurodd y clerc y camau priodol a oedd angen eu dilyn i gydymffurfio a'r ddeddfwriaeth newydd i ail gofrestru staff mewn cynllun pensiwn gweithle. Cytunwyd i anfon llythyr yn egluro opsiynau priodol i'r clerc.

c) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

ch) Taliadau

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- 1) Cyflog y clerc (Ionawr i ddiwedd Mawrth)
- 2) CTHEM (TWE)
- 3) Neuadd Maesywaen (llogi)
- 4) Un Llais Cymru (tal aelodaeth)

d) Ceisiadau Ariannol.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r mudiadau ac elusennau canlynol gan adael arian digonol tu cefn ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl a all i'r godi yn y flwyddyn ariannol nesaf:-

1) Eisteddfod Talybont	£150
2) Cylch Meithrin/ Ti a Fi Maesywaen	£150
3) Neuadd Y Parc	£150 (Euros Puw yn datgan buddiant)
4) Ysgol Bro Tryweryn	£150
5) Cymdeithas Rhieni Ysgol Godre'r Berwyn	£25
6) Sioe Ardal Maesywaen	£50
7) Ambiwylans Awyr Cymru	£50
8) Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn	£25
9) CFFI Meirionnydd	£100
10) Hosbis Tŷ'r Eos	£50
11) Cantref	£25 (Gwynedd Jones yn datgan buddiant)
12) Eisteddfod Powys	£50
13) Hosbis Dewi Sant	£50

vii) Unrhyw Fater Arall.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Dŵr yn dod i'r ffordd ger Plas Madog, Glan-llyn - gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r cyngor gan y broblem yn parhau

ii) Ffordd Rhyduchaf - angen trwsio'r ffordd gyferbyn a Ty'n Ffordd ar ôl i i wreiddiau'r goeden a ddisgynnodd gerllaw godi'r tarmac.

iii) Erw Faen, Rhyduchaf - draen gerllaw wedi tagu.

iv) Pont Maes Meini, Rhyduchaf – roedd y gwaith a wnaed gan Open Reach wedi creu problem gyda'r beipen gerllaw.

v) Twll archwilio wedi suddo ar yr allt ym mhentref Rhyduchaf - gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r cyngor gan nad oedd wedi cael ei drwsio.

vi) Dŵr yn llifo fewn i faes parcio Neuadd Maesywaen - derbyniwyd cais gan bwyllgor y Neuadd am welliannau i'r ffosydd gerllaw gan fod gymaint o ddŵr yn cael ei gario lawr y ffordd ac i mewn yw maes parcio.